# Eich adborth, ein hymateb

**Rydym yn cymryd eich adborth o ddifrif. Dyma rai enghreifftiau o newidiadau a gyflwynwyd gennym yn dilyn adborth gan gwsmeriaid.**

| Eich adborth | Ein hymateb |
|---|---|
| Nid oedd disgrifiad o statws eich cais am basbort ar-lein yn glir | Gwnaethom newid y geiriad a rhoi esboniadau mewn Cymraeg clir |
| Roedd amseroedd aros ar gyfer ceisiadau am basbort y DU yn rhy hir<br><br>Roedd amseroedd aros i gwsmeriaid tramor a oedd yn adnewyddu eu pasbortau yn rhy hir<br><br>Roedd amseroedd aros ar gyfer pasbortau cyntaf i blant tramor yn rhy hir | Gwnaethom recriwtio a hyfforddi staff newydd er mwyn helpu i brosesu ceisiadau, ymateb i ymholiadau e-bost â thasgau eraill yn gyflymach Gwnaethom hefyd gynnig uwchraddio cwsmeriaid am ddim os oeddynt yn ein hysbysu bod angen iddynt deithio ar frys<br><br>Gwnaethom gyflwyno estyniad dros dro o flwyddyn am ddim i ddeiliaid pasbort presennol<br><br>Gwnaethom gyflwyno darpariaeth er mwyn gwneud cais am ddogfennau teithio brys nes bod ein hamseroedd prosesu yn gwella<br><br>Rydym hefyd wedi rhoi cynlluniau ar waith er mwyn sicrhau bod gennym y gallu a'r gwydnwch i reoli'r galw a ragwelir am ein gwasanaethau yn y dyfodol |
| Pan lansiwyd ein sianel ar-lein yn y gwanwyn, cawsoch drafferth ail-fewngofnodi i'r system i wirio cynnydd eich cais | Gwnaethom newid y negeseuon a rhoi cyfarwyddiadau cliriach, gan arwain at lai o ymholiadau |
| Roedd cwsmeriaid tramor â chenedligrwydd deuol yn dweud wrthym eu bod yn cael trafferth parhau i deithio a chadarnhau eu hunaniaeth os oeddent yn anfon eu pasbortau nad ydynt yn Brydeinig i ni er mwyn cefnogi eu ceisiadau adnewyddu | Gwnaethom gytuno y gallai'r grŵp hwn o gwsmeriaid anfon copïau o'u pasbortau, yn hytrach na'r rhai gwreiddiol, ac mae hyn wedi datrys y broblem |
| Nid oedd yn glir lle y dylid llofnodi'r ffurflen datganiad a argraffir ar ôl gwneud cais drwy'r sianel ar-lein | Gwnaed gwelliannau i ddyluniad y ffurflen datganiad er mwyn gwneud hyn yn glir |

**Mae ffurflenni adborth ar gael gan aelod o staff**

**Chwefror 2015**

HM Passport Office

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE